



Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon os ydych eisoes wedi llenwi ffurflen IHT400 hyd at a chan gynnwys blwch 109, ac nad yw'r cyfrifiad syml yn addas.

Help

Am ragor o wybodaeth neu help:

- ewch i www.gov.uk/inheritance-tax
- ffoniwch ein llinell gymorth ar **0300 200 1900**
- os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch **+44 300 200 1900**

Rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth

Os gwnaeth yr ymadawedig roddion neu drosglwyddiadau eraill o werth yn ystod y 7 mlynedd cyn marw, bydd gwerth trethadwy'r rhoddion a'r throsglwyddiadau hyn yn lleihau swm haen gyfradd sero'r Dreth Etifeddiant sydd ar gael i'r ystâd ar ôl y farwolaeth. Llenwch y blychau isod i gael gwybod beth yw swm yr haen gyfradd sero sydd ar gael ar ôl y farwolaeth.

1	Haen gyfradd sero'r Dreth Etifeddiant ar ddyddiad y farwolaeth. Gweler IHT400, 'Cyfraddau a thablau'	£
2	Haen gyfradd sero drosglwyddadwy (Atodlen IHT402, blwch 21)	£
3	Cyfanswm yr haen gyfradd sero ar ddyddiad y farwolaeth (blwch 1 + blwch 2)	£
4	Cyfanswm gwerth trethadwy rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth a wnaed gan yr ymadawedig cyn pen y 7 mlynedd cyn ei farwolaeth (Atodlen IHT403, blwch 7). Peidiwch â chynnwys rhoddion gydag ataliad yma - rhowch hwy ym mlwch 104 ar ffurflen IHT400 yn lle hynny.	£
5	Balans haen gyfradd sero'r Dreth Etifeddiant sydd ar gael (blwch 3 llai blwch 4) (os yw'r ffigur hwn yn un minws, nodwch '0' ym mlwch 5)	£

Cyfrifo Treth Etifeddiant

6	Cyfanswm yr ystâd drethadwy (copiwch o ffurflen IHT400, blwch 108)	£
7	Haen cyfradd sero ar gyfer cartrefi sy'n ddyledus, gan gynnwys unrhyw swm a drosglwyddwyd (Atodlen IHT435, blwch 25)	£
8	Haen gyfradd sero'r Dreth Etifeddiant sydd ar gael (copiwch o flwch 5)	£
9	Gwerth trethadwy ar gyfer treth (blwch 6 llai blwch 7 llai blwch 8). Os yw'r canlyniad yn swm minws, nodwch '0'. Os yw'r ffigur yn '0', peidiwch â llenwi rhagor ar y ffurflen hon, a throwch at ffurflen IHT400, blwch 121.	£
10	Treth Etifeddiant (blwch 9 x 40%)	£

Rhyddhad taliadau olynol

Yn ystod y 5 mlynedd cyn marw, os etifeddodd yr ymadawedig arian neu asedion o ystâd rhywun arall y talwyd Treth Etifeddiant arni'n barod, gallwch ddiynnu rhyddhad taliadau olynol i atal yr etifeddiaeth rhag cael ei threthu ddwywaith mewn cyfnod byr o amser.

11 A oes rhyddhad taliadau olynol yn ddyledus?

Nac oes Nodwch '0' ym mlwch 18 ac ewch i flwch 19

Oes Dilynwch y cyfarwyddiadau isod i gyfrifo'r rhyddhad taliadau olynol

Bydd angen i chi gyfrifo gwerth ystâd yr unigolyn cyntaf i farw a faint o Dreth Etifeddiant a dalwyd er mwyn cyfrifo'r rhyddhad sy'n ddyledus. Bydd angen i chi hefyd wybod beth oedd gan yr ymadawedig hawl i'w gael o'r ystâd. Gallwch ddarganfod hyn drwy ofyn i ysgutor ystâd yr unigolyn cyntaf i farw.

Os ydych yn didynnu rhyddhad taliadau olynol, nodwch:

- cyfeirnod Treth Etifeddiant yr unigolyn cyntaf i farw
- ei enw llawn
- dyddiad y farwolaeth

yn y blychau ar gyfer 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 16 o ffurflen IHT400.

12 Faint o Dreth Etifeddiant a dalwyd ar ystâd yr unigolyn cyntaf i farw? £ .

13 Beth oedd gwerth net ystâd yr unigolyn cyntaf i farw, ar ôl tynnu rhwymedigaethau ac eithriadau? £ .

14 Blwch 12 ÷ blwch 13 .

15 Beth oedd hawl yr ymadawedig o ystâd yr unigolyn cyntaf i farw? £ .

16 Blwch 14 x blwch 15 £ .

Mae swm y rhyddhad sydd ar gael yn dibynnu ar nifer y blynyddoedd rhwng y farwolaeth gyntaf ar ail farwolaeth, ac fe'i dangosir yn y tabl.

Blynyddoedd rhwng y ddwy farwolaeth	Canran y gostyngiad
1 flwyddyn neu lai	100%
1 - 2 flynedd	80%
2 - 3 blynedd	60%
3 - 4 blynedd	40%
4 - 5 mlynedd	20%
Dros 5 mlynedd	0%

Er enghraifft, os oedd yr ail farwolaeth ar 3 Mawrth 2007 ar farwolaeth gyntaf ar 17 Awst 2005, mae mwy na blwyddyn rhwng y ddwy farwolaeth, ond llai na dwy flynedd, felly canran y gostyngiad fyddai 80%.

17 Nodwch ganran y gostyngiad %

18 Swm y rhyddhad taliadau olynol sy'n ddyledus: blwch 16 x blwch 17 £ .

19 Treth Etifeddiant ar yr ystâd drethadwy (blwch 10 llai blwch 18) £ .

Rhyddhad taliadau olynol – Enghraifft 1

12 Faint o Dreth Etifeddiant a dalwyd ar ystâd yr unigolyn cyntaf i farw? £ 10,000 . 0 0

13 Beth oedd gwerth net ystâd yr unigolyn cyntaf i farw, ar ôl tynnu rhwymedigaethau ac eithriadau? £ 340,000 . 0 0

14 Blwch 12 ÷ blwch 13 0 . 0 2 9 4 ← $£10,000 \div £340,000 = 0.0294$

15 Beth oedd hawl yr ymadawedig o ystâd yr unigolyn cyntaf i farw? £ 200,000 . 0 0

16 Blwch 14 x blwch 15 £ 5,880 ← $£200,000 \times 0.0294 = £5,880$
Dyma swm y Dreth Etifeddiant a dalwyd ar gyfran yr ymadawedig o ystâd yr unigolyn cyntaf i farw. Nawr mae angen i chi edrych ar faint o ryddhad sy'n ddyledus ar y swm hwnnw o dreth.

Mae swm y rhyddhad sydd ar gael yn dibynnu ar nifer y blynyddoedd rhwng y farwolaeth gyntaf ar ail farwolaeth, ac fe'i dangosir yn y tabl.

Blynyddoedd rhwng y ddwy farwolaeth	Canran y gostyngiad
1 flwyddyn neu lai	100%
1 - 2 flynedd	80%
2 - 3 blynedd	60%
3 - 4 blynedd	40%
4 - 5 mlynedd	20%
Dros 5 mlynedd	0%

Er enghraifft, os oedd yr ail farwolaeth ar 3 Mawrth 2007 ar farwolaeth gyntaf ar 17 Awst 2005, mae mwy na blwyddyn rhwng y ddwy farwolaeth, ond llai na dwy flynedd, felly canran y gostyngiad fyddai 80%.

17 Nodwch ganran y gostyngiad 80 % ← Os oedd rhwng un a dwy flynedd rhwng y ddwy farwolaeth, yna mae'r tabl yn dangos y byddai canran y gostyngiad yn 80%.

18 Swm y rhyddhad taliadau olynol sy'n ddyledus: blwch 16 x blwch 17. £ 4,704 ← $£5,880 \times 80 \div 100 = £4,704$.
Dyma swm y rhyddhad taliadau olynol sy'n ddyledus.

Treth y gellir ei thalu mewn rhandaliadau

Gellir talu treth ar rai mathau o eiddo ac asedion heb eu gwerthu, mewn 10 rhandaliad blynyddol - hynny yw, un rhandaliad y flwyddyn am 10 mlynedd. Yr eiddo ar asedion lle y caniateir talu'r dreth yn y modd hwn yw tai, tiroedd ac adeiladau heb eu gwerthu, rhai mathau o gyfranddaliadau a gwerth net busnes neu fuddiant mewn busnes ar ôl didynnu Rhyddhad Busnes. Rhestrir yr asedion ar eiddo hyn ar dudalennau 7 ac 8 ar ffurflen IHT400 yng ngholofn B. Mae cyfanswm gwerth yr asedion lle y gallwch dalu'r dreth mewn rhandaliadau i'w gweld ar ffurflen IHT400, blwch 95, yn ogystal â blwch 97 + blwch 99 (os yw'n gymwys). Cyn gynted ag y bydd unrhyw eiddo neu ased yn cael ei werthu, bydd yn rhaid i chi dalu'r holl dreth sy'n weddill. Os byddwch yn dewis talu treth mewn rhandaliadau ar yr asedion hyn, bydd yn rhaid i chi dalu llog ar y dreth sydd heb ei thalu.

20 Eiddo ac asedion lle y gallai rhandaliadau treth fod ar gael (ffurflen IHT400, blwch 95 + blwch 103). £

21 Gwerth yr eiddo ar asedion a ddangosir yng ngholofn B ffurflen IHT400 sydd wedi cael eu gwerthu neu yr ydych yn dymuno talu'r dreth arnynt yn awr a pheidio â talu mewn rhandaliadau (gallai'r rhain fod yn asedion ym mlychau 49, 51, 66, 67, 68, 69, 70 neu 71). Nodwch gyfanswm yr asedion hyn a allai fod wedi cael eu gwerthu ac yr ydych yn dymuno talu'r dreth arnynt yn awr. £

22 Gwerth yr eiddo ar asedion a ddangosir yng ngholofn B ffurflen IHT400 lle y mae'r dreth yn cael ei thalu mewn rhandaliadau (blwch 20 llai blwch 21). Os mai '0' yw'r ateb, nodwch '0' ym mlwch 27 ac ewch i flwch 40) £

Rhandaliadau sy'n ddyledus yn awr

Dim ond cyfrifor dreth sy'n cael ei thalu mewn rhandaliadau y bydd angen i chi ei wneud os yw'r dyddiad dyledus ar gyfer y rhandaliad cyntaf wedi mynd heibio neu os yw'n llai na 30 diwrnod yn y dyfodol. Fel arall, gallwch hepgor blychau 23 i 39 a mynd yn syth i flwch 40. Mae'r rhandaliad treth cyntaf yn ddyledus ar ddiwrnod olaf y chweched mis ar ôl dyddiad y farwolaeth. Er enghraifft, os bu farwr ymadawedig ar 17 Gorffennaf 2007, y dyddiad dyledus ar gyfer talu'r rhandaliad cyntaf yw 31 Ionawr 2008. Bydd y tabl o ddyddiadau dyledus isod yn eich helpu i gyfrifor dyddiad dyledus.

Mis y farwolaeth	Y dyddiad dyledus
Ionawr	31 Gorffennaf
Chwefror	31 Awst
Mawrth	30 Medi
Ebrill	31 Hydref
Mai	30 Tachwedd
Mehefin	31 Rhagfyr
Gorffennaf	31 Ionawr
Awst	28/29 Chwefror
Medi	31 Mawrth
Hydref	30 Ebrill
Tachwedd	31 Mai
Rhagfyr	30 Mehefin

23 Beth yw dyddiad dyledus y rhandaliad? DD MM BBBB

24 A yw dyddiad dyledus y rhandaliad wedi mynd heibio neu a yw'n llai na 30 diwrnod yn y dyfodol?

Nac ydy Ysgrifennwch '0' ym mlwch 25 ac yna ewch i flwch 40

Ydy Ewch i flwch 25

25 Faint o'r 10 rhandaliad sy'n ddyledus yn awr?

26 Blwch 22 ÷ blwch 6 .

27 Blwch 26 x blwch 19. Dyma'r dreth y gellir ei thalu mewn rhandaliadau cyn i unrhyw ryddhad trethiant dwbl gael ei ddiwynnu. £ .

28 A oedd ffurflen IHT400 yn cynnwys tai, tiroedd, busnesau neu ddaliadau rheoli tramor heb eu gwerthu (ffurflen IHT400, blwch 97)?

Nac oedd Copiwch y ffigur o flwch 27 i flwch 37. Parhewch o flwch 38

Oedd Darllenwch yr wybodaeth am ryddhad trethiant dwbl ar y dudalen nesaf

Rhyddhad trethiant dwbl

Os talwyd treth dramor sy'n cyfateb i Dreth Etifeddiant ar werth yr asedion tramor, efallai y bydd rhyddhad trethiant dwbl yn ddyledus os oes confensiwn trethiant dwbl rhwng y DU a'r wlad arall. Os nad oes confensiwn, mae'n bosibl y byddwn yn dal i allu rhoi 'rhyddhad unochrog'. I gael rhagor o wybodaeth am ryddhad trethiant dwbl, ewch i www.gov.uk/inheritance-tax

Os ydych yn dymuno hawlio rhyddhad trethiant dwbl neu ryddhad unochrog, amgaewch 'dystysgrif treth a dalwyd' gan yr awdurdod treth dramor gyda ffurflen IHT400, os oes gennych un, yn dangos swm y dreth dramor a dalwyd. Efallai y byddwn yn gofyn rhagor o gwestiynau am y cais ar ôl i'r grant gael ei roi. Rhaid i chi hefyd lenwi Atodlen IHT417, 'Asedion tramor' yn manylu ar yr asedion y tu allan i'r DU.

29 A oes rhyddhad trethiant dwbl yn ddyledus ar y tai, tiroedd, busnesau a daliadau rheoli cyfrannau tramor heb eu gwerthu?

Nac oes Copiwch y ffigur o flwch 27 i flwch 37. Parhewch o flwch 38

Oes Ewch i flwch 30

30 Gwerth y tai, tiroedd, busnesau a daliadau rheoli tramor heb eu gwerthu y talwyd treth dramor arnynt (ffurflen IHT400, blwch 97, £ sterling)

£

31 Treth Etifeddiant ar yr ystâd drethadwy (copiwch o flwch 19)

£ .

32 Cyfanswm yr ystâd drethadwy (copiwch o flwch 6)

£

33 Blwch 31 ÷ blwch 22

.

34 Blwch 30 x blwch 33

£ .

35 Treth dramor a dalwyd ar y tai, tiroedd, busnesau a daliadau rheoli tramor heb eu gwerthu (£ sterling)

£ .

36 Y rhyddhad treth yw'r swm isaf o flychau 34 a 35. Ysgrifennwch y swm isaf yma.

£ .

37 Treth net i'w thalu mewn rhandaliadau (blwch 27 llai blwch 36). Os nad oes rhyddhad trethiant dwbl yn cael ei ddiynnu, copiwch y gwerth o flwch 27 yma

£ .

38 Rhannwch y swm ym mlwch 37 â 10 i gyfrifo faint y dylai pob un o'r 10 rhandaliad treth fod. Nodwch yr ateb yma.

£ .

39 Treth y gellir ei thalu mewn rhandaliadau sy'n cael ei thalu yn awr. Lluoswch y swm ym mlwch 38 â nifer y rhandaliadau sy'n ddyledus yn awr (blwch 25). Nodwch yr ateb yma. Ewch i flwch 40.

£ .

Rhyddhad trethiant dwbl – Enghraifft 2

30 Gwerth y tai, tiroedd, busnesau a daliadau rheoli tramor heb eu gwerthu y talwyd treth dramor arnynt (ffurflen IHT400, blwch 97, £ sterling)

£ 20,000

$$£12,000 \div £330,000 = 0.0364$$

31 Treth Etifeddiant ar yr ystâd drethadwy (copiwch o flwch 19)

£ 12,000 . 00

$$0.0364 \times £20,000 = £728$$

32 Cyfanswm yr ystâd drethadwy (copiwch o flwch 6)

£ 330,000

33 Blwch 31 ÷ blwch 32

0 . 0364

Swm y dreth dramor a dalwyd oedd £2,000 felly nodwch y ffigur hwnnw ym mlwch 35.

34 Blwch 30 x blwch 33

£ 728 . 00

35 Treth dramor a dalwyd ar y tai, tiroedd, busnesau a daliadau rheoli tramor heb eu gwerthu (£ sterling)

£ 2,000 . 00

Cymharwch y ddau ffigur ym mlychau 34 a 35. Y rhyddhad trethiant dwbl sy'n ddyledus yw'r isaf o'r ffigurau ym mlychau 34 a 35. Mae £728 yn is na £2,000 felly £728 yw'r rhyddhad trethiant dwbl ar y tai, tiroedd ac adeiladau tramor heb eu gwerthu. Nodwch y swm hwn ym mlwch 36.

36 Y rhyddhad treth yw'r swm isaf o flychau 34 a 35. Ysgrifennwch y swm isaf yma.

£ 728 . 00

Treth nad yw'n cael ei thalu mewn rhandaliadau

Gellir talu'r Dreth Etifeddiant mewn rhandaliadau ar dai, tiroedd a busnesau heb eu gwerthu ac ar fathau penodol o gyfranddaliadau yn unig. Rhaid i'r Dreth Etifeddiant ar yr holl dai, tiroedd a busnesau a werthwyd, cyfranddaliadau a phob math arall o asedion, fel cyfrifon banc a nwyddau'r cartref a phersonol, gael ei thalu pan fyddwch yn anfon y ffurflen hon atom. Gallwch hefyd ddewis talu'r holl dreth yn awr.

- 40 Eiddo ac asedion lle nad yw rhandaliadau ar gael (IHT400, blwch 94 + IHT400, blwch 102 + IHT400, 'Cyfrifiad', blwch 21). Os mai'r ateb yw 0, ysgrifennwch '0' ym mlwch 42 ac ewch i flwch 54.

£

- 41 Blwch 40 ÷ blwch 6

.

- 42 Blwch 41 x blwch 19. Dyma'r dreth na chaniateir ei thalu mewn rhandaliadau cyn y didynnir unrhyw ryddhad trethiant dwbl.

£ .

- 43 A oedd ffurflen IHT400 yn cynnwys tai, tiroedd, busnesau a daliadau rheoli tramor a werthwyd (ffurflen IHT400, blwch 97) neu asedion tramor eraill (ffurflen IHT400, blwch 98)?

Nac oedd Copiwch y ffigur o flwch 42 i flwch 54, ac yna parhewch o flwch 55

Oedd Darllenwch yr wybodaeth am ryddhad trethiant dwbl ar dudalen 4 ac yna ewch i flwch 44

Rhyddhad trethiant dwbl

Gweler y nodyn am ryddhad trethiant dwbl ar frig tudalen 4.

- 44 A oes rhyddhad trethiant dwbl yn ddyledus ar dai, tiroedd, busnesau a daliadau rheoli tramor a werthwyd, ac ar asedion tramor eraill?

Nac oes Copiwch y ffigur o flwch 42 i flwch 54, ac yna parhewch o flwch 55

Oes Ewch i flwch 45

Am enghraifft o sut i gyfrifo rhyddhad trethiant dwbl, gweler Enghraifft 2 ar dudalen 4

- 45 Gwerth tai, tiroedd, busnesau a daliadau rheoli tramor a werthwyd (ffurflen IHT400, blwch 97) lle y talwyd treth dramor (£ sterling)

£

- 46 Gwerth asedion tramor eraill lle y mae treth dramor wedi cael ei thalu (ffurflen IHT400, blwch 98, £ sterling)

£

- 47 Cyfanswm eiddo tramor lle nad yw'r dreth yn cael ei thalu mewn rhandaliadau (blwch 45 + blwch 46, £ sterling)

£

- 48 Treth Etifeddiant ar yr ystâd drethadwy (copiwch o flwch 19)

£ .

- 49 Cyfanswm yr ystâd drethadwy (copiwch o flwch 6)

£

- 50 Blwch 48 ÷ blwch 49

.

- 51 Blwch 50 x blwch 47

£ .

- 52 Treth dramor a dalwyd ar yr eiddo a'r asedion tramor lle nad yw'r dreth yn cael ei thalu mewn rhandaliadau (£ sterling)

£ .

- 53 Y rhyddhad treth yw'r swm isaf o flychau 51 a 52. Ysgrifennwch y swm isaf yma.

£ .

- 54 Treth net nad yw'n cael ei thalu mewn rhandaliadau:

- blwch 42 llai blwch 53
- os nad oes rhyddhad trethiant dwbl yn cael ei ddidynnu, copiwch y gwerth o flwch 42 i flwch 54. (Os oedd blwch 42 yn 0, nodwch '0' yma)

£ .

Llog

Mae Treth Etifeddiant yn ddyledus ar ddiwrnod olaf y chweched mis ar ôl dyddiad y farwolaeth. Bydd llog yn ddyledus hyd yn oed os nad ydych wedi cael Grant erbyn hynny. Bydd llog yn ddyledus hefyd hyd yn oed os nad ydym wedi cysylltu â chi nac unrhyw un arall (er enghraifft, ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth neu rywun a gafodd rodd gan yr ymadawedig). Dywed y gyfraith y bydd llog yn cael ei ychwanegu at unrhyw dreth heb ei thalu ar ôl y dyddiad hwn. Nid yw llog yn gosb - mae'n gwneud iawn i'r Trysorlys am yr oedi cyn cael yr arian sy'n ddyledus iddo. Os byddwch yn talu gormod o dreth, byddwn yn talu llog ar yr ad-daliad i chi.

Mae llog yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y 7fed mis ar ôl dyddiad y farwolaeth. Er enghraifft, os bu farw'r ymadawedig ar 17 Gorffennaf 2007, bydd llog yn ddyledus o 1 Chwefror 2008 ar yr holl dreth heb ei thalu, beth bynnag oedd y rheswm dros beidio â thalu'r dreth. Bydd y tabl isod yn rhoi gwybod i chi ar ba ddyddiad y mae'r llog hwnnw'n dechrau.

Mis y farwolaeth	Dechrau codi llog
Ionawr	1 Awst
Chwefror	1 Medi
Mawrth	1 Hydref
Ebrill	1 Tachwedd
Mai	1 Rhagfyr
Mehefin	1 Ionawr
Gorffennaf	1 Chwefror
Awst	1 Mawrth
Medi	1 Ebrill
Hydref	1 Mai
Tachwedd	1 Mehefin
Rhagfyr	1 Gorffennaf

55 Ar ba ddyddiad y mae llog yn dechrau? 01 MM BBBB

Os bydd y dreth yn cael ei thalu ar ôl y dyddiad hwn, mae'n rhaid i chi ychwanegu llog at y dreth sy'n cael ei thalu.

56 A yw'r dyddiad ym mlwch 55 wedi mynd heibio, neu a yw'n debygol o fynd heibio cyn i chi dalu'r dreth?

Nac ydy Nodwch '0' ym mlychau 58, 59, 61 a 62 ac yna ewch i flwch 63

Ydy Ewch i flwch 57 i gyfrifo'r llog sy'n ddyledus

Cyfrifo llog gan ddefnyddio'r gyfrifiannell llog ar-lein

57 Y ffordd hawsaf o gyfrifo'r llog sy'n ddyledus yw defnyddio'r gyfrifiannell llog sydd ar ein gwefan.

Ewch i www.hmrc.gov.uk/tools/inheritancetax/interest-rate-calculator.htm

Os byddwch yn defnyddio'r gyfrifiannell llog, dylech gyfrifo'r llog ar y dreth sy'n cael ei thalu mewn rhandaliadau (blwch 39) a'r dreth nad yw'n cael ei thalu mewn rhandaliadau (blwch 54).

A ydych yn dymuno defnyddio'r gyfrifiannell llog i gyfrifo'r llog sy'n ddyledus?

Nac ydw Ewch i Daflen Gymorth IHT400, 'Cyfrifo llog ar daliadau Treth Etifeddiant' a dilynwch y cyfarwyddiadau yno

Ydw Ewch i flwch 58

58 Llog ar dreth nad yw'n cael ei thalu mewn rhandaliadau

Dim ond os yw'r ffigur ym mlwch 54 yn fwy na 0 y mae angen i chi wneud y cyfrifiad hwn:

- ar gyfer y gyfrifiannell llog, ewch i www.hmrc.gov.uk/tools/inheritancetax/interest-rate-calculator.htm
- yn y blwch 'dyddiad dechrau llog' ar y gyfrifiannell, nodwch y dyddiad sydd ym mlwch 55
- yn y blwch 'dyddiad diwedd llog' ar y gyfrifiannell, nodwch y dyddiad pan fyddwch yn disgwyl anfon ffurflen IHT400
- yn y blwch 'Treth Etifeddiant sy'n ddyledus' nodwch swm y dreth nad yw'n cael ei thalu mewn rhandaliadau sydd ym mlwch 54
- defnyddiwch y botwm 'cyfrifo' i gael gwybod faint o log sy'n ddyledus

Nodwch swm y llog yma

£ .

59 Llog ar dreth sy'n cael ei thalu mewn rhandaliadau

Dim ond os yw'r ffigur ym mlwch 39 yn fwy na 0 y mae angen i chi wneud y cyfrifiad hwn:

- ar gyfer y gyfrifiannell llog, ewch i www.hmrc.gov.uk/tools/inheritancetax/interest-rate-calculator.htm
- yn y blwch 'dyddiad dechrau llog' ar y gyfrifiannell, nodwch y diwrnod ar ôl y dyddiad pan ddaeth y rhandaliad diweddaraf yn ddyledus – os mai dim ond un rhandaliad sy'n ddyledus ('1' yw'r ffigur ym mlwch 25), y dyddiad hwn fydd y dyddiad ym mlwch 55 – os oes dau rhandaliad yn ddyledus, bydd y dyddiad dechrau union flwyddyn ar ôl y dyddiad ym mlwch 55, ac yn y blaen
- yn y blwch 'dyddiad diwedd llog' ar y gyfrifiannell, nodwch y dyddiad pan fyddwch yn disgwyl anfon ffurflen IHT400
- yn y blwch 'Treth Etifeddiant sy'n ddyledus', nodwch swm y dreth sy'n cael ei thalu mewn rhandaliadau sydd ym mlwch 39
- defnyddiwch y botwm 'cyfrifo' i gael gwybod faint o log sy'n ddyledus

Nodwch swm y llog yma

£ .

60 Ai '1' yw'r rhif ym mlwch 25?

Nage Ewch i flwch 61

Ie Nodwch '0' ym mlwch 61 ac ewch i flwch 62

61 Llog ychwanegol ar dreth sy'n cael ei thalu mewn rhandaliadau pan fydd mwy nag un rhandaliad yn ddyledus

Pan fydd mwy nag un rhandaliad treth yn ddyledus, bydd yn rhaid i chi gyfrifo swm ychwanegol o log oni bai bod y rhandaliadau treth yn ddi-log.

Rhandaliadau di-log

Mae rhandaliadau treth yn ddi-log yn achos mathau penodol o asedion, cyhyd â bod y rhandaliadau'n cael eu talu'n brydlon. Yr asedion lle y mae'r rhandaliadau'n rhai di-log yw:

- cyfranddaliadau neu warantau, ac eithrio cyfranddaliadau mewn cwmni buddsoddi neu eiddo, a fydd yn gymwys dim ond os yw'r cwmni
 - yn gwmni daliannol o gwmnïau, nad ydynt yn gwmnïau buddsoddi nac eiddo
 - yn wneuthurwr marchnad neu dŷ disgownt yn y DU
- busnes neu ddiddordeb mewn busnes a gynhelir er mwyn gwneud elw
- tir sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad amaethyddol
- coed

Byddai'n sefyllfa anarferol iawn pe bai angen i chi gyfrifo'r llog ar y mathau hyn o asedion lle y mae'r rhandaliadau'n cael eu talu'n hwy. Mae Taflen Gymorth IHT400, 'Cyfrifo llog ar daliadau Treth Etifeddiant' yn esbonio beth i'w wneud:

- os nad yw'r rhandaliadau'n ddi-log (ac ni fydd y rhan fwyaf ohonynt) - ar gyfer y gyfrifiannell llog, ewch i www.hmrc.gov.uk/tools/inheritancetax/interest-rate-calculator.htm
- yn y blwch 'dyddiad dechrau llog' ar y gyfrifiannell, nodwch y dyddiad sydd ym mlwch 55
- yn y blwch 'dyddiad diwedd llog' ar y gyfrifiannell, nodwch y dyddiad pan ddaeth y rhandaliad diweddaraf yn ddyledus
- yn y blwch 'Treth Etifeddiant sy'n ddyledus', nodwch gyfanswm y dreth sy'n cael ei thalu mewn rhandaliadau sydd ym mlwch 37
- defnyddiwch y botwm 'cyfrifo' i gael gwybod faint o log sy'n ddyledus

Nodwch swm y llog yma. (Dyma'r ffigur ar gyfer blwch 61)

£ .

Er enghraifft, bu farw'r ymadawedig ar 6 Gorffennaf 2005. Y dyddiad pan fo'r dreth yn ddyledus yw 31 Ionawr 2006. Y dreth sy'n cael ei thalu mewn rhandaliadau yw £10,000. Mae'r rhandaliad cyntaf o £1,000 yn ddyledus ar 31 Ionawr 2006, yr ail rhandaliad ar 31 Ionawr 2007 ac yn y blaen. Gwnaed y cais am grant ar 18 Mehefin 2007, felly bu'n rhaid talu'r ddau rhandaliad hynny bryd hynny. Y dyddiad 'diwedd' yn yr enghraifft hon fyddai 31 Ionawr 2007.

Yn y blwch 'Treth Etifeddiant sy'n ddyledus' nodwch gyfanswm y dreth sy'n cael ei thalu mewn rhandaliadau (o flwch 37). Yn yr enghraifft hon, bydd hyn yn £10,000.

62	Cyfanswm y llog ar y dreth sy'n cael ei thalu mewn rhandaliadau (blwch 59 + blwch 61)	£ <input type="text"/> . <input type="text"/>
63	Cyfanswm y dreth a llog sy'n daladwy yn awr, lle y maer dreth yn cael ei thalu mewn rhandaliadau (blwch 39 + blwch 62)	£ <input type="text"/> . <input type="text"/>
64	Cyfanswm y dreth a llog nad yw'n cael ei dalu mewn rhandaliadau (blwch 54 + blwch 58)	£ <input type="text"/> . <input type="text"/>
65	Cyfanswm y Dreth Etifeddiant a llog ar yr ystâd sy'n cael ei dalu yn awr (blwch 63 + blwch 64)	£ <input type="text"/> . <input type="text"/>

Treth sy'n daladwy ar roddion a throsglwyddiadau yn ystod bywyd

Y dreth a'r llog a ddangosir ym mlwch 65 yw'r dreth a llog sy'n daladwy yn awr er mwyn i chi allu cael grant cynrychiolaeth. Yn dibynnu ar amgylchiadau'r ystâd, efallai y bydd rhagor o dreth a llog i'w talu gan y sawl a gafodd roddion yn ystod bywyd gan yr ymadawedig. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i'r sawl a gafodd y rhoddion am ragor o fanylion am y rhoddion ar gyfrif ar wahân. Os rhoddodd yr ymadawedig roddion yn ystod bywyd a oedd dros haen gyfradd sero'r Dreth Etifeddiant neu roddion gydag ataliad, bydd rhagor o dreth yn daladwy ac fe anfonwn gyfrifiadau o'r dreth pan fyddwch wedi anfon y ffurflen hon atom. Er hynny, dylech gofio bod llog yn daladwy os nad yw'r dreth yn cael ei thalu'n brydlon. I weld sut mae rhoddion yn ystod bywyd yn cael eu trethu ar farwolaeth, ewch i www.gov.uk/inheritance-tax

Rhyddhad meinhaus

Os oes treth ychwanegol i'w thalu ar roddion yn ystod bywyd, gallai rhyddhad meinhaus fod ar gael. Bydd hyn yn berthnasol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- rhaid i gyfanswm gwerth y rhoddion fod yn fwy na haen gyfradd sero'r Dreth Etifeddiant
- rhaid i'r rhoddion fod wedi'u gwneud rhwng 3 a 7 mlynedd cyn i'r ymadawedig farw

Mae'r rhyddhad yn lleihau swm y dreth sy'n daladwy ar rodd, nid gwerth y rhodd ei hun.

I gael rhagor o wybodaeth am ryddhad meinhaus, ewch i www.gov.uk/inheritance-tax

Ymddiriedolaethau

Os oedd yr ymadawedig yn elwa ar unrhyw ased a ddelir mewn ymddiriedolaeth a ddangosir ar Atodlen IHT418, ac nad yw'r ymddiriedolwyr wedi talu'r dreth a'r cyfrif hwn, bydd rhagor o dreth yn ddyledus. Byddwn yn anfon cyfrifiad o'r dreth at yr ymddiriedolwyr a enwir ar Atodlen IHT418.

Os oes diwygiadau wedi'u gwneud i werth asedion yr ymddiriedolaeth neu i werth ystâd yr ymadawedig, bydd hyn yn effeithio ar y dreth sy'n ddyledus ar asedion yr ymddiriedolaeth a'r dreth sy'n ddyledus ar ystâd yr ymadawedig. Os yw hyn yn wir, byddwn yn anfon rhagor o gyfrifiadau treth atoch.

Beth i'w wneud pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen hon

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon heb gymorth cyfreithiwr, unigolyn arall wedi'i drwyddedu i ddarparu gwasanaethau profiant neu gynghorwr arall, anfonwch y ffurflen atom gyda'ch ffurflen IHT400 fel y gallwn weld sut yr ydych wedi cyfrifo'r dreth. Parhewch i lenwi ffurflen IHT400 o flwch 120 ymlaen.

Os ydych yn gyfreithiwr, yn unigolyn arall wedi'i drwyddedu i ddarparu gwasanaethau profiant neu'n ymgynghorydd arall, nid oes angen i chi anfon y ffurflen hon atom os nad ydych eisiau, ond os ydych wedi cynnwys swm o ryddhad taliadau olynol ym mlwch 18 neu ryddhad trethiant dwbl ym mlychau 36 neu 53, anfonwch y ffurflen hon atom gyda ffurflen IHT400 fel y gallwn weld sut y cyfrifwyd yr achosion hyn o ryddhad.